SFJGK514

# Rheoli perthnasoedd gwaith gydag unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan cam-drin domestig neu drais rhywiol drwy'r system cyfiawnder troseddol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli perthnasoedd gwaith gydag unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol ac rydych chi'n eu cefnogi drwy'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n cynnwys sicrhau eich bod yn cadw o fewn ffiniau priodol ymddygiad wrth roi cymorth i unigolion a dod â pherthynas â'r unigolyn i derfyn.

Fel rhan o'r safon hon, bydd disgwyl i chi hefyd roi cyngor am yr ystod o wasanaethau ac asiantaethau eraill a all gefnogi unigolion, a'u helpu i benderfynu ar y rhain a chael atynt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cytuno ar eich amcanion ar gyfer darparu cymorth i unigolion gyda phobl berthnasol eraill, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
2. rhoi gwybod i unigolion am gyfrifoldebau eich rôl ac amcanion cytunedig
3. casglu gwybodaeth am unigolion sy'n llywio'ch dealltwriaeth o'u hanghenion, gan gynnwys:
• asesiad risg
4. archwilio pa gymorth byddwch chi'n ei roi i unigolion i fodloni eu hanghenion, yn unol â therfynau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
5. rhoi gwybod i unigolion pan fydd y cymorth sydd ei angen y tu hwnt i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
6. cefnogi unigolion mewn ffyrdd sy'n ystyried eu ffiniau personol a ffiniau proffesiynol eich rôl
7. darparu gwybodaeth am gymorth a gwasanaethau eraill i unigolion, sy'n bodloni eu hanghenion ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus
8. cynorthwyo unigolion i gael at gymorth a gwasanaethau eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. gydag unigolion, archwilio effaith ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau cytunedig
10. hyrwyddo ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol mewn ffyrdd sy'n annog unigolion i adnabod effeithiau buddiol gwneud hynny
11. archwilio gydag unigolion eraill manteisio ar gymorth a gwasanaethau, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau
12. cynghori unigolion am amserlenni a phrosesau ar gyfer dwyn perthnasoedd gwaith i ben, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
13. cynorthwyo unigolion i ddod â'u mynediad at gymorth i ben, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
14. cyfathrebu ag unigolion mewn ffyrdd sy'n bodloni eu hanghenion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
15. cymryd camau i sicrhau eich bod yn gofalu am eich iechyd, eich diogelwch a'ch lles eich hun wrth ymgysylltu ag unigolion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
16. rhoi gwybod i eraill pan fyddwch yn nodi risgiau, yn unol â pholisïau a

gweithdrefnau'r sefydliad, gan gynnwys:

• y risg i'ch diogelwch a'ch lles eich hun

• y risg i ddiogelwch a lles unigolion

17. cynnal eich cymhwysedd proffesiynol a'ch gallu i gefnogi unigolion er mwyn cyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau

18. rhoi gwybod i bobl eraill pan fyddwch yn amlygu risgiau a bygythiadau i natur broffesiynol eich perthynas waith gydag unigolion, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

19. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

20. gwerthuso a rhannu eich canfyddiadau gydag asiantaethau a rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. eich rôl a'ch cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfyngiadau eich awdurdod yn y system cyfiawnder troseddol
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol a phwy y dylid ceisio cyngor oddi wrthynt pan fydd angen cymorth arnoch yn eich rôl
6. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion unigolion
7. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
8. teimladau ac ymatebion unigolion a allai rwystro'u gallu i drafod eu profiadau
9. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a dulliau o gyflawni hyn
10. pwysigrwydd trin unigolion gyda sensitifrwydd, hyblygrwydd a pharch
11. yr effaith y gall eich gwerthoedd a'ch credoau ei chael ar eich ymgysylltiad ag unigolion
12. pwysigrwydd osgoi risg i chi'ch hun ac i unigolion wrth ddarparu cymorth
13. pwysigrwydd herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a sut i wneud hynny
14. rôl ac effaith croestoriadedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig neu drais rhywiol
15. eich ffiniau proffesiynol a ffiniau personol unigolion
16. goblygiadau cydgynllwynio gweithgar, hyfforddi a chysylltiad amhriodol gydag unigolion a rhwng unigolion yn ystod achos llys, a sut i adnabod ac osgoi hyn
17. yr effaith y gall cyhuddiadau o hyfforddi a chydgynllwynio gweithgar gydag unigolion ei chael
18. pwysigrwydd cynnal eich cymhwysedd proffesiynol a'ch galluoedd
19. effaith ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol ar unigolion
20. prosesau a chamau'r system cyfiawnder troseddol y mae unigolion yn ymgysylltu â nhw
21. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn y

gymuned

22. beth yw ailerledigaeth a'r ffactorau a all waethygu hyn
23. beth yw meithrin perthynas amhriodol gydag unigolion a sut gellir adnabod hyn
24. ffactorau sy'n cynyddu risg i unigolion a sut gellir eu lleihau neu eu hosgoi
25. gwahanol fathau o wybodaeth a'u ffynonellau, yn berthnasol i unigolion sudd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol a sut i gael at y rhain
26. gwasanaethau a chymorth sydd ar gael i unigolion yn eich ardal ddaearyddol, eu meini prawf a sut i atgyfeirio iddynt
27. yr effaith y gall trosglwyddo rhwng gwasanaethau cymorth gwahanol ei chael ar unigolion
28. anghenion gwybodaeth a chymorth cyffredin unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol a sut i fodloni'r anghenion hyn
29. y camau sy'n angenrheidiol pan nodir bod trais yn cael ei ddatgelu
30. sut i rannu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n caniatáu i unigolion wneud dewisiadau gwybodus a phwysigrwydd gwneud hynny

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**
Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**
Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**
Math o eiriolaeth sy'n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a'u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae'n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy'n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy'n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**
Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**
Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod y gellir eu defnyddio sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**
Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i

ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**
Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**
Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Ymarfer Ystyriol o Drawma**
Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso.

SFJGK514

Rheoli perthnasoedd gwaith gydag unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan cam-drin domestig neu drais rhywiol drwy'r system cyfiawnder troseddol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJGK514 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Eiriolydd Annibynnol ynghylch Trais Rhywiol, Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | Cyngor; annibynnol; eiriolaeth; tyst; proffesiynol; ffiniau; unigolion; defnyddiwr gwasanaeth; perthynas |